

Ble mae'r proffwydi?

“A dyma’i roddion: rhai i fod yn apostolion, rhai yn broffwydi.” (adn. 11)

Beth am ddarllen Effesiaid 4:1–16 ac yna myfyrio

Nodwyd ddoe fod yr Ysbryd Glân wedi llefaru wrth y proffwydi a’r athrawon oedd wedi ymgynnull yn Antiochia, gan gyhoeddi ei bwmpas mewn perthynas â Barnabas a Saul. Trafodwyd llawer ar y modd y bu i’r Ysbryd Glân gyfleu’r gwirionedd hwn i’r eglwys, yn arbennig cyfleu gwirionedd mor benodol mewn perthynas â Barnabas a Saul. Mae un esboniwr yn credu fod y gynulleidfa i gyd wedi clywed llais yr Ysbryd yn eu meddyliau wrth iddynt weddio ac addoli. “Yr oeddent yn un â’i gilydd ac yn un â Duw,” meddai, “ac oherwydd hyn gallent glywed llais Duw ynghyd.”

Er nad wyf am wadu’r posibilrwydd yma yn gyfan gwbl, i mi mae’n debyg mai trwy un o’r proffwydi y llefarwyd y neges. Yn ôl Actau 11:27, yr ydym yn darllen: “Yn y dyddiau hynny daeth proffwydi i lawr o Jerwsalem i Antiochia, a chododd un ohonynt, o’r enw Agabus, a rhoi arwydd trwy’r Ysbryd fod newyn mawr ar ddod dros yr holl fyd; ac felly y bu yn amser Clawdus.” Clywyd llais y proffwyd yn aml yn yr Eglwys Fore, ac mae’n ymddangos i mi ei bod yn berffaith resymol i gredu, yn yr amgylchiad yr ydym yn ei drafod, fod yr Ysbryd wedi llefaru trwy un o’r proffwydi.

Ble mae proffwydi Duw yn yr Eglwys heddiw? A fyddwn yn clywed llais y proffwydi yn yr Eglwys? Gobeithio y byddwn. Mae rhai’n amheus iawn o unrhyw beth sydd yn oruwchnaturiol, ond y goruwchnaturiol a ffurfiodd yr Eglwys Fore a’i gwneud yr hyn yr oedd. Un o’r gofidiau mewn perthynas â’r goruwchnaturiol yw’r perygl o bob math o ddylanwadau. Ond mae yna ddiogelwch yn yr Ysgrifur. Wedi i’r Ysbryd lefaru, parhaodd yr eglwys i ymprydio ac i weddio cyn arddodi dwylo ar Barnabas a Saul (Actau 13:3).

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Luc 2:36–38; Actau 13:1; 15:32; 21:8–14; 1 Thes. 5:19–20

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa ran oedd i’r proffwydi yn yr Eglwys Fore?
2. Pa ran sydd i broffwydi yn eich eglwys chi?

Gweddi

Fy Nuw a fy Nhad, rwyf yn gofyn i ti sicrhau o fewn i’th Eglwys fod yna weinidogaeth lawn, y weinidogaeth yr wyt ti wedi ei bwriadu ar gyfer yr Eglwys, y weinidogaeth sydd yn cael ei hamlygu yn yr Eglwys Fore. Dyro i ni, nid yn unig ddyhead amdanat ti, ond hefyd y grym i’th ddilyn di. Yn enw Iesu. Amen.